Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Llanbedr**
**Llanbedr**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1SU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr ym mhentref Llanbedr Dyffryn Clwyd ger Rhuthun yn Sir Ddinbych. Mae 45 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys naw o ddisgyblion rhan-amser sy'n mynychu'r ddarpariaeth feithrin. Mae dau ddosbarth oedrannau cymysg. Mae tua 9% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 20%. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 21% o ddisgyblion. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae pob un o'r disgyblion o dras ethnig gwyn Prydeinig ac mae bron pob un yn siarad Saesneg fel eu prif iaith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y cartref.

Yn 2013, cynhaliodd awdurdod lleol Sir Ddinbych adolygiad o'r ddarpariaeth gynradd yn ardal Rhuthun a chynigiwyd cau Ysgol Llanbedr. Gwrthodwyd y cynnig hwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2015. Yn Chwefror 2015, cyhoeddodd yr awdurdod lleol ail gynnig i gau Ysgol Llanbedr. Ar adeg cynnal yr arolygiad, disgwylir canlyniad y cynnig hwn.

Cafwyd saith o benaethiaid gwahanol ers yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym Mehefin 2009. Yn Ionawr 2016, gofynnodd yr esgobaeth i bennaeth ysgol arall yr Eglwys yng Nghymru yn Sir Ddinbych fod yn bennaeth gweithredol Ysgol Llanbedr. Mae'r ysgolion wedi cydweithio ers yr adeg hon, ond nid ydynt wedi sefydlu ffederasiwn ffurfiol. Mae'r ysgol yn cadw ei chorff llywodraethol ei hun. Mae'r pennaeth yn rhannu ei hamser yn gyfartal rhwng safleoedd y ddwy ysgol. Mae pennaeth cynorthwyol yn darparu arweinyddiaeth yn yr ysgol pan fydd y pennaeth gweithredol i ffwrdd o'r safle.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr yn 2016-2017 yw £6,473. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,267 a'r lleiafswm yw £3,066. Mae Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr yn yr ail safle o'r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Safonau llythrennedd a mathemateg yn dda
- Bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol
- Bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i ddysgu ac i lwyddo mewn gwersi
- Profiadau dysgu yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn bodloni eu hanghenion yn dda
- Pwyslais cryf ar ddatblygu medrau creadigol disgyblion
- Y rhan fwyaf o'r addysgu yn dda
- Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol
- Yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i les yr holl ddisgyblion
- Yr ysgol yn gymuned ddysgu gyfeillgar a chynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant parhaus gan arweinwyr yr ysgol
- Y pennaeth gweithredol yn darparu arweinyddiaeth gref
- Y corff llywodraethol yn ddylanwadol iawn wrth bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol
- Staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan gefnogol
- Yr ysgol yn rhoi blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith yn llwyddiannus
- Prosesau cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ac yn sicrhau newid cadarnhaol, er enghraifft wrth godi safonau mewn darllen a mathemateg
- Ystod eang o bartneriaethau effeithiol o fudd i'r holl ddisgyblion
- Gwaith ar y cyd ag ysgol bartner yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol
- Adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn Cymraeg

A2 Cryfhau rôl grwpiau llais y disgybl

A3 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod gweithgareddau monitro yn canolbwyntio’n gadarn ar arfarnu safonau disgyblion

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy'n gyfartal â'r cyfartaledd am eu hoedran neu ychydig yn uwch. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau dysgu unigol.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol, er enghraifft wrth drafod sut i ysgrifennu llythyr darbwyllol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i gwestiynau. Er enghraifft, maent yn esbonio'n fanwl y strategaethau y maent yn eu defnyddio i ddatrys problemau mathemategol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn dda. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio'u gwybodaeth am ffoneg a strategaethau, fel ail-ddarllen, i ddehongli geiriau anghyfarwydd a sefydlu ystyr. Mae'r rhai mwy abl yn defnyddio atalnodi yn effeithiol i ddarllen gyda mynegiant. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth ddigon sicr gan ddisgyblion o sut i ddefnyddio llyfrau ffeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth. Maent yn defnyddio cliwiau cyd-destunol yn llwyddiannus i weithio allan beth yw ystyr geiriau anodd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau darllen yn dda i gael mynediad i feysydd dysgu eraill. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn ysgrifennu at ystod dda o ddibenion, er enghraifft i ail-adrodd straeon traddodiadol neu i ysgrifennu llyfryn gwybodaeth ar gyfer 'Eric yr Estron'. Maent yn sillafu geiriau gyda mwy a mwy o gywirdeb. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth sicr o nodweddion a dibenion mathau gwahanol o ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu llythyrau anffurfiol a chofnodion dyddiadur yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau da o stamina ar gyfer ysgrifennu ac yn cynhyrchu darnau o waith estynedig diddorol. Maent yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn daclus. Yn gyffredinol, mae rhan fwyaf y disgyblion, o bob oed yn defnyddio'u medrau ysgrifennu ar lefel briodol yn eu gwaith testun. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio atalnodi'n ddigon da bob amser yn eu gwaith ysgrifenedig mewn llythrennedd ac mewn gwersi testun.

Mae safonau'n dda mewn mathemateg. Mae bron pob un o'r disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn darllen, yn ysgrifennu ac yn trefnu rhifau hyd at 100 yn gywir. Maent yn dyblu ac yn haneru rhifau dau ddigid yn llwyddiannus. Mae dealltwriaeth sicr gan ran fwyaf y disgyblion o ffracsiynau sylfaenol, fel hanner a chwarter. Maent yn casglu ac yn cyflwyno data yn briodol mewn siartiau cyfrif a graffiau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau rhif cadarn ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r dull grid yn llwyddiannus i luosi rhifau mawr. Maent yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu'u dealltwriaeth o ffracsiynau cywerth fel canrannau a degolion. Mae rhan fwyaf y

disgyblion yn defnyddio'u medrau mathemategol yn dda i ddatrys problemau geiriau. Yn y ddau gyfnod allweddol, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn rheolaidd ar safon debyg yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd buddiol wrth ddefnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn creu graffiau gan ddefnyddio pecynnau meddalwedd addas, ac yn defnyddio dyfeisiau llechen i dynnu lluniau'n llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio nodweddion y feddalwedd yn dda, er enghraifft, i ymgorffori testun a delweddau mewn cyflwyniadau. Maent yn rheoli delweddau digidol yn llwyddiannus drwy ysgrifennu codau. Gwnânt ddefnydd effeithiol o lwyfan dysgu, er enghraifft i rannu eu gwaith gyda disgyblion o ysgol leol arall. Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae medrau disgyblion wrth weithio gyda chronfeydd data.

Digonol yw safonau mewn Cymraeg ar draws yr ysgol. Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg gan lawer o ddisgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, maent yn ynganu geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn briodol, er enghraifft wrth ymateb i gwestiynau neu gyfarwyddiadau gan oedolion. Maent yn ysgrifennu'n addas i gynhyrchu darnau byr o wybodaeth amdanynt eu hunain. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau brawddegau wrth siarad. Maent yn darllen yn frwdfrydig, ond dim ond lleiafrif sy'n dangos dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddarllen. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol y tu allan i wersi Cymraeg.

Mae nifer fach y disgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn golygu ei bod yn anodd nodi tueddiadau mewn perfformiad disgyblion nac i lunio casgliadau dilys am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg eraill. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael yn dangos bod disgyblion, yn gyffredinol, yn gwneud yn dda mewn asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf, ni fu unrhyw ddisgyblion ym Mlwyddyn 6.

Mae niferoedd bach yn gwneud cymharu perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn annilys.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i droi os ydynt yn bryderus neu'n ofidus. Maent yn deall pwysigrwydd deiet iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod eang o ddiddordebau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu lefelau da o hunan-barch, er enghraifft drwy ddysgu chwarae offeryn cerdd neu ganu yn y côr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Maent yn dangos lefelau uchel o ofal ac ystyriaeth i'w gilydd, ac yn cydweithio'n dda wrth weithio mewn grwpiau. Maent yn foesgar ac yn barchus pan fyddant yn rhyngweithio gydag oedolion. Mae bron pob disgybl yn awyddus i ddysgu

ac i lwyddo mewn gwersi. Maent yn cynnal lefelau uchel o ddiddordeb yn y rhan fwyaf o dasgau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod ddefnyddiol o strategaethau i'w helpu i fyfyrio ar eu gwaith ac i nodi sut i'w wella.

Mae disgyblion hŷn yn awyddus i ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Er enghraifft, maent yn rhoi cymorth gwerthfawr wrth helpu disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen i wella eu medrau darllen. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cyfrannu syniadau gwerthfawr ynglŷn â beth fyddent yn hoffi ei ddysgu mewn testunau. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn gweithio'n frwdfrydig i godi arian at elusen ac i ailgylchu deunyddiau gwastraff. At ei gilydd, mae'r grwpiau hyn yn galluogi disgyblion i gyfrannu'n briodol at benderfyniadau am fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gweithio gyda digon o annibyniaeth ac maent yn dibynnu'n rhy drwm ar gymorth oedolion. Yn gyffredinol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod islaw'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, niferoedd disgyblion isel iawn sydd i gyfrif am hyn yn bennaf. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gwella'n raddol. Mae'r data diweddaraf yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni'r holl ofynion statudol. Mae athrawon yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu mewn testunau, fel 'Materion y Ddaear' a'r 'Ail Ryfel Byd'. Mae'r profiadau hyn yn ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion yn y dysgu, ac yn bodloni eu hanghenion datblygiadol yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar mae athrawon wedi addasu eu cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r trefniadau i ddatblygu medrau darllen penodol mewn sesiynau darllen dan arweiniad yn llwyddiannus. Mae ystod eang o gyfleoedd sydd wedi'i chynllunio'n dda yn cynorthwyo rhan fwyaf y disgyblion i ddysgu sut i ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol yn effeithiol. Mae athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau TGCh yn cysylltu'n dda â meysydd dysgu eraill. Er enghraifft, maent yn herio disgyblion i greu cyflwyniadau wrth ddysgu am losgfynyddoedd, ac i baratoi gwaith ysgrifenedig i rannu gyda chyfoedion mewn ysgol leol arall. Cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion weithio gyda chronfeydd data. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol i ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt i wella eu medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd wedi'u cynllunio i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar lefel sy'n briodol o heriol.

Mae ystod amrywiol o glybiau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r clwb cyfrifiaduron, sef 'drymio a strymio', a'r clwb llyfrau, yn cyfrannu'n dda at ddatblygu medrau disgyblion. Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu creadigrwydd ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd mynych i ganu, chwarae offerynnau cerdd, i fynychu cyngherddau a gweithdai drama a chelf. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae gwaith gydag artistiaid, beirdd a cherddorion lleol, yn ogystal ag ymweliadau â mannau fel eisteddfod ryngwladol Llangollen a theithiau preswyl i ganolfannau'r Urdd, yn fuddiol. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a hanes a diwylliant Cymru. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu Cymraeg disgyblion fel ail iaith yn briodol. Mae'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd digonol wrth ddatblygu'u medrau siarad, darllen ac ysgrifennu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn briodol, er enghraifft drwy gompostio gwastraff yr ysgol a thyfu llysiau. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau gwahanol a'r byd o'u hamgylch, er enghraifft trwy gymharu eu bywydau â bywydau plant yn Lesotho a thrwy ysgrifennu at blant yn yr Almaen.

**Addysgu: Da**

Mae rhan fwyaf yr addysgu yn effeithiol ac yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Ceir perthnasoedd gweithio cadarnhaol a pharchus rhwng staff a disgyblion. Mae pob un o'r staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n dal ac yn cynnal diddordebau disgyblion yn dda. Mae rhediad bywiog i ran fwyaf y gwersi, ac maent yn bodloni anghenion yr amrywiaeth eang o oedrannau a galluoedd ym mhob dosbarth. Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu cydbwysedd da o weithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau yn cael eu harwain gan blant. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, mae oedolion yn darparu gormod o gyfeiriad yn ystod gweithgareddau â ffocws ac mewn gwersi Cymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddefnyddio'u medrau dysgu'n annibynnol yn effeithiol.

Mae disgwyliadau clir gan ran fwyaf yr athrawon o'r hyn y bydd disgyblion yn ei ddysgu yn ystod gwersi. Maent yn esbonio tasgau'n glir. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall sut i lwyddo yn eu gwaith. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn darparu adborth llafar adeiladol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Maent yn gofyn cwestiynau addas yn rheolaidd er mwyn ymestyn y dysgu, ac yn ymyrryd ar adegau priodol i gynorthwyo'r rhai y mae angen help arnynt. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn gydwybodol ac yn canmol yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda. Fodd bynnag, nid yw sylwadau ysgrifenedig bob amser yn nodi'n ddigon clir beth ddylai disgyblion ei wneud i wella ansawdd eu gwaith. Caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae llyfrau targed defnyddiol yn helpu disgyblion i fonitro'u cynnydd yn erbyn nodau gwella.

Mae athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Ceir trefniadau addas i sicrhau bod athrawon yn gwneud asesiadau diwedd cyfnod allweddol cywir o safonau disgyblion. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plentyn trwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol manwl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i les pob un o'i disgyblion. Ceir trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn elwa o gael cyfleoedd rheolaidd i wneud ymarfer corff mewn gwersi a chlybiau allgyrsiol.

Mae athrawon a staff yn hyrwyddo datblygiad moesol disgyblion yn dda, drwy feithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch ac egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg. Ceir darpariaeth dda i annog datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, gyda chyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at eu cymuned leol, fel drwy deithiau cerdded elusen ac ymweliadau â pharciau gwledig lleol. Mae gwasanaethau cydaddoli rheolaidd a gwersi addysg grefyddol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu'u hymwybyddiaeth ysbrydol ac i fyfyrio ar eu credoau eu hunain a phobl eraill.

Mae athrawon a staff yn gwneud defnydd da o gymorth ac arweiniad proffesiynol gan wasanaethau arbenigol i hyrwyddo lles disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae cydweithredu agos gyda'r gwasanaethau lles, iechyd a'r gwasanaethau gwirfoddol yn cynorthwyo staff i gefnogi anghenion unigol disgyblion yn dda. Mae'r heddlu lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cefnogi rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn dda, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch personol.

Ceir darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon a staff cymorth yn adnabod eu disgyblion a'u hanghenion yn dda. Maent yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae cynlluniau addysg unigol addas ar waith ar gyfer disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cysylltu tasgau disgyblion yn yr ystafell ddosbarth â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol yn briodol. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a thargedau cytûn. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni, ac mae'r rhieni yn cyfranogi'n llawn yn yr adolygiad o gynnydd eu plentyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri unrhyw bryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gyfeillgar a chynhwysol. Mae'n rhoi cryn bwys ar hyrwyddo ymdeimlad o berthyn a datblygu gwerthoedd cadarnhaol ymhlith staff a disgyblion. Er enghraifft, mae gweithredoedd rheolaidd o gydaddoli yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cyfeillgarwch, tegwch a goddefgarwch yn dda. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad cyfartal i bob agwedd ar ei darpariaeth.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o adeiladau a thir yr ysgol. Er enghraifft, mae'r defnydd creadigol o ardal y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod disgyblion yn cael ystod eang o brofiadau dysgu ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Mae staff yn defnyddio ystafelloedd bach yn dda ar gyfer gweithgareddau creadigol fel gwersi cerdd. Mae digonedd o adnoddau dysgu o ansawdd da, fel deunyddiau darllen a llechi, yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn llwyddiannus. Mae arddangosiadau, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn dathlu cynnydd a chyflawniad disgyblion yn dda.

Mae'r amgylchedd awyr agored yn ddeniadol ac mae staff yn defnyddio'r mannau awyr agored yn dda i wella profiadau dysgu disgyblion. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mewn cyfnod cymharol fyr, ers sefydlu'r trefniadau gweithio ar y cyd gydag ysgol eglwys leol arall, mae arweinwyr wedi darparu arweinyddiaeth strategol gadarn i'r ysgol. Maent wedi gweithio'n agos gyda llywodraethwyr, staff a rhieni i sefydlu gweledigaeth lwyddiannus ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i greu ethos ysgol gyfan cefnogol yn seiliedig ar waith tîm da. Mae'r strwythur staffio clir yn darparu dosbarthiad addas o gyfrifoldebau arwain. Mae staff yn ymgymryd â'u rolau arweinyddiaeth yn gydwybodol ac mae hyn wedi bod yn effeithiol, er enghraifft o ran datblygu'r amgylchedd awyr agored ar gyfer disgyblion a chodi safon darllen.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a threfnus sy'n cynnwys ffocws cryf ar wella'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd buddiol i staff rannu eu dysgu yn dilyn gweithgareddau datblygiad proffesiynol. Mae'r ysgol yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol, er enghraifft y fframwaith llythrennedd a rhifedd a chymorth targedig i ddisgyblion mwy abl.

Mae'r corff llywodraethol yn ddylanwadol iawn o ran pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol. Mae llywodraethwyr wedi cymryd rôl arweiniol yn sefydlu'r trefniadau arweinyddiaeth llwyddiannus presennol. Mae cydbwyllgor gyda chorff llywodraethol yr ysgol gydweithredol yn arbennig o effeithiol o ran cefnogi gwelliant yr ysgolion ar y cyd. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ddatblygedig iawn o waith yr ysgol a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Defnyddiant eu gwybodaeth yn dda i ddarparu cymorth a her briodol i'r arweinwyr ysgol; er enghraifft, maent yn herio arweinwyr mewn perthynas â chyfraddau presenoldeb disgyblion. Mae hyn wedi cefnogi gwelliannau diweddar yn yr agwedd hon ar waith yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau sefydledig ac effeithiol gan yr ysgol ar gyfer cynllunio ar gyfer gwelliant. Mae pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn cyfranogi mewn trafodaethau hunanadolygu defnyddiol. Mae'r ysgol yn gofyn am farnau'r holl rieni a disgyblion drwy holiaduron rheolaidd, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i roi gwelliannau ar waith. Yn fwyaf diweddar, arweiniodd hyn at ddatblygu darpariaeth gwaith cartref a darparu cynlluniau cwricwlwm tymhorol i rieni. Fel rhan o'r broses hunanadolygu, mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r dadansoddiad manwl o ddata'r ysgol, canlyniadau profion cenedlaethol a monitro cynnydd disgyblion. Mae'r broses hefyd yn cynnwys ystod o weithgareddau addas, fel monitro gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r monitro yn canolbwyntio'n ddigonol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni na'r cynnydd a wnânt, er enghraifft yn ystod arsylwadau o wersi.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn darparu trosolwg cryno o waith yr ysgol ac yn nodi'r prif feysydd i'w gwella yn gywir. Mae cysylltiadau clir rhwng meysydd y tynnwyd sylw atynt i'w gwella yn yr adroddiad a blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae gan bob un o'r staff agweddau ar wella'r ysgol i arwain arnynt,

ac maent yn chwarae rhan lawn mewn sicrhau gwelliannau. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn drylwyr wrth fynd i'r afael â blaenoriaethau bob hanner tymor, ac mae arfarniadau'n dangos bod yr ysgol yn llwyddo i gyflawni gwelliannau. Mae gwaith diweddar ar flaenoriaethau'r ysgol wedi codi safonau mewn darllen ac wedi gwella perfformiad mewn mathemateg, yn enwedig i'r disgyblion hynny sy'n fwy abl.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag ystod eang o bartneriaid, a gwnânt gyfraniad cadarn at wella safonau a lles disgyblion. Mae cydweithio agos gydag ysgol eglwys leol arall yn cael effaith fuddiol iawn ar wella arweinyddiaeth a darpariaeth. Er enghraifft, mae'r ysgolion yn rhannu adnoddau dysgu ac mae staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio, rheoli, a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn cydgyfrannu eu harian i sicrhau effeithlonrwydd gwell wrth brynu gwasanaethau ac adnoddau, a defnyddiant yr arbedion hyn i ehangu cyfleoedd dysgu disgyblion, er enghraifft trwy ymweliadau cwricwlwm. Mae disgyblion yn dechrau elwa ar y cydweithio hwn, sy'n darparu mwy o ryngweithio gyda chyfoedion o'r un grŵp oedran â nhw i gystadlu mewn digwyddiadau chwaraeon a pherfformio. Cânt gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau TGCh drwy lanlwytho eu gwaith i lwyfan cyffredin. Mae hyn yn galluogi disgyblion i roi a derbyn adborth defnyddiol ar eu gwaith gan eu cyfoedion yn yr ysgol gydweithredol.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt drwy gylchlythyrau wythnosol a diweddariadau rheolaidd i safleoedd cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar yn gwneud cyfraniad sylweddol i helpu'r ysgol ehangu'r adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau, eisteddfodau a gweithgareddau i'r henoed yn y gymuned ac mewn eglwysi lleol. Mae'r profiadau hyn yn atgyfnerthu'u dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymuned leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wirfoddolwyr sy'n gwrando ar ddisgyblion yn darllen. Maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu hunanhyder disgyblion a'u diddordeb mewn llyfrau.

Ceir partneriaeth gref gyda'r grŵp cyn-ysgol ar y safle, sef 'Munchkins'. Mae disgyblion yn elwa o ymuno â'r ysgol ar gyfer gweithgareddau fel gwasanaeth, amser stori a diwrnodau pontio. Mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Ceir cysylltiadau agos gyda'r ysgol uwchradd leol sy'n helpu paratoi disgyblion yn dda at y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd eraill yn yr ardal ar ystod o weithgareddau, gan gynnwys cymedroli ac asesu gwaith disgyblion. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth athrawon o'r safonau a ddisgwylir ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cymorth cymwys iawn i sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn ofalus i wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Caiff hyn effaith gadarnhaol, er enghraifft, ar y ddarpariaeth ar gyfer cerddoriaeth a chymorth i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae pob un o’r staff yn cael mynediad i ddatblygiad proffesiynol perthnasol. Mae llawer ohonynt yn mynychu cyrsiau sy’n eu cynorthwyo i ddatblygu’u rolau arwain yn llwyddiannus. Mae trefniadau ar gyfer arsylwi gwersi mewn dosbarthiadau eraill gan athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda. Caiff pob un o’r staff eu cynnwys yn llawn yn y broses effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae gosod targedau rheoli perfformiad yn cynorthwyo gwella’r ysgol a datblygiad personol yn effeithiol. Er enghraifft, mae’r broses wedi cyfrannu’n dda at ddatblygu ardal awyr agored y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn drylwyr ac mae ganddynt gynllun ariannol hirdymor clir ar gyfer yr ysgol. Mae gweithio’n agos gyda’r ysgol gydweithredol yn effeithiol iawn o ran gwella arbedion ariannol ac adnoddau. Er enghraifft, mae rhannu ysgrifennydd ar draws y ddau safle yn fuddiol iawn. Mae arweinwyr yn dyrannu cyllid priodol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Gwna’r ysgol ddefnydd da o’r grant amddifadedd disgyblion i wella deilliannau i ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6633044 - Ysgol Llanbedr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 35 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 6 | 4 | 7 | 3 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 7 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 25.0 | 57.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 7 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 16.7 | 25.0 | 57.1 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 6 | 4 | 7 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 66.7 | 50.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae carfannau bach iawn mewn llawer o flynyddoedd data perfformiad cyfnod allweddol 2 sydd ar gael ar gyfer yr ysgol hon. Lle mae hyn yn wir, nid ydym yn cynnwys tabl o ddata perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 15 | 15 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 15 | 15 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 15 | 15 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 15 | 15 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 15 | 15 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 15 | 15 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 15 | 15 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 15 | 15 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 15 | 14 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 15 | 15 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 15 | 14 | 1 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 15 | 15 | 0 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 37 | 33 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 37 | 33 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 37 | 35 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 37 | 31 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 32 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 37 | 29 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 37 | 31 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 84% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 27 | 6 | 0 | 1 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 73% | 16% | 0% | 3% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 37 | 28 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 37 | 35 | 2 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 37 | 34 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 37 | 27 | 8 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 37 | 25 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 68% | 30% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 37 | 28 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 19 | 17 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 51% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 37 | 29 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 78% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 37 | 20 | 6 | 0 | 0 | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 54% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 37 | 35 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 37 | 33 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Richard Lloyd | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Linda Williams | Arolygydd Tîm |
| Mr Kenneth Dackevych | Arolygydd Lleyg |
| Mr Tony Bate | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ms Suzanne Van Loock (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.